**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

**CELG(4)-27-13 Papur 1**

**Dyddiad:** **16 Hydref 2013**

**Amser:** **9.15am - 10.45am**

**Teitl:** **Papur tystiolaeth - Llywodraeth Leol: Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2014-15**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cynigion cyllidebol ar gyfer rhaglenni'r dyfodol ym maes Llywodraeth Leol, fel y'u hamlinellir yn y Gyllideb Ddrafft a osodwyd ar 8 Hydref 2013. Mae'n cynnwys Llywodraeth Leol a chymunedau mwy diogel.

## 2. Cefndir

O'i gymharu â'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2013-14, wedi'u hailddatgan yn dilyn y newidiadau ym mis Mawrth 2013, mae cyfanswm y dyraniad DEL ar gyfer Llywodraeth Leol wedi gostwng £95.8m yn 2014-15. Fel rhan o'r sefyllfa gyffredinol hon, mae cynnydd o £64.7m yn y DEL Adnoddau yn 2014-15 ac yn 2015-16, yn sgil trosglwyddiadau i'r Grant Cynnal Refeniw. Y cynllun dangosol ar gyfer DEL Adnoddau 2015-16, sydd wedi'i gyhoeddi am y tro cyntaf, yw £4,459.2m.

Nid oes unrhyw newid i'r gyllideb gyfalaf o £22.9m yn 2014-15, ac mae'r gyllideb gyfalaf ddangosol ar gyfer 2015-15 yn £22.9m. Nid oes unrhyw newid i'r gyllideb o £24.4m ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) ar gyfer Pensiynau'r Gwasanaethau Tân.

Mae'r tabl ariannol cryno canlynol yn dangos yr effaith gyffredinol ar gyllideb sylfaen Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Leol. Nid yw hyn yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME), sydd y tu allan i Derfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### Tabl Ariannol Cryno ar gyfer Prif Grŵp Gwariant (MEG) Llywodraeth Leol:

| | 2013-14 Cyllideb Atodol £000 | 2014-15 Cynlluniau Dangosol Cyllideb Derfynol wedi'i Hailddatgan £000 | 2014-15 Newidiadau £000 | 2014-15 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft £000 | 2015-16 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| DEL Adnodd | 4,717,908 | 4,661,243 | -95,850 | 4,565,393 | 4,459,231 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| DEL Cyfalaf | 22,920 | 22,920 | 0 | 22,920 | 22,920 |
| Llinell Sylfaen DEL | 4,737,828 | 4,684,163 | -95,850 | 4,588,313 | 4,482,151 |

## 3. Trosolwg o'r Gyllideb

Mae gan yr Adran Llywodraeth Leol dair prif swyddogaeth:

- Cyflwyno fframwaith deddfu a chyllido ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru sy'n helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus drwy fod yn agored, yn dryloyw ac yn atebol;
- Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu (gan gynnwys ofn troseddu), a gweithio i leihau nifer tanau ac argyfyngau eraill, a'u heffaith;
- Rhoi arweiniad cenedlaethol er mwyn sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn gweithio'n effeithiol ar y cyd i roi pobl yn gyntaf a gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o arian cyhoeddus drwy gydweithio.

Mae'r modd yr aethom ati i wneud hynny wedi'i amlinellu yn y themâu sydd wedi'u nodi ym Mhenodau 2 a 7 y Rhaglen Lywodraethu:

- Cryfhau democratiaeth leol;
- Cefnogi gwella gwasanaethau cyhoeddus yn barhaus;
- Sicrhau bod ein cyllid yn cefnogi darparu gwasanaethau cryfach a mwy effeithiol;
- Sicrhau cydweithio effeithiol rhwng gwasanaethau cyhoeddus;
- Sicrhau cymunedau mwy diogel i bawb.

Ar ben hynny, mae ein gwaith yn cyfrannu at nifer o nodau'r Rhaglen Lywodraethu drwy ein sylw trawsbynciol ar gryfhau'r modd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu, a thrwy hybu diogelwch cymunedol.

Fel rhan o'r holl newidiadau i'r MEG Llywodraeth Leol, trosglwyddir cyfanswm o £64.7m i'r **Grant Cynnal Refeniw** yn 2014-15 ac yn 2015-16. Mae'r trosglwyddiadau'n cynnwys y canlynol:

- £28.6m o'r MEG Addysg a Sgiliau ar gyfer darpariaeth anghenion addysgol arbennig ôl-16 mewn ysgolion prif ffrwd (£4.2m), ac mewn ysgolion arbennig ôl-16 a lleoliadau anghenion addysgol arbennig y tu allan i'r sir (£24.4m);
- £32.9m o’r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y Grant Adsefydlu Anabledd Dysgu;
- £3.2m o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y Pecyn Camau Cyntaf.

Yn sgil Cytundeb y Gyllideb, rydym hefyd yn creu cronfa newydd sy’n werth £50m – y Gronfa Gofal Canolraddol. O’r cyfanswm hwn, mae £35m o’r adnoddau’n perthyn i’r MEG Llywodraeth Leol, a £15m o gyllid cyfalaf yn perthyn i’r MEG Tai ac Adfywio.

Yn olaf, fel rhan o'r holl newidiadau ceir trosglwyddiad o £0.15m i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar gyfer Panel Dyfarnu Cymru. Ceir rhai trosglwyddiadau o fewn y MEG hefyd er mwyn sicrhau mwy o gysondeb â chynllun busnes yr Adran, ac er mwyn dod â chyllidebau sy'n canolbwyntio ar Lywodraeth Leol a gwasanaethau cyhoeddus at ei gilydd.

Bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu pan fydd yr Adroddiad Dros Dro ar Gyllid Llywodraeth Leol, ynghyd â’r rhesymeg dros y dosbarthiad, yn cael ei gyhoeddi ar 16 Hydref 2013. Bydd hwn yn nodi swm y Grant Cynnal Refeniw y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ei ddosbarthu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn 2014-15 a'r dyraniadau dangosol ar gyfer 2015-16, ynghyd â'r rhesymeg dros y dosbarthiad.

Er mwyn sicrhau bod newidiadau'r gyllideb ddrafft i'r MEG Llywodraeth Leol yn dryloyw, mae dadansoddiad fesul BEL ar gael yn Atodiad 1.

## 4. Y Rhaglen Lywodraethu

Llywodraeth Leol

Mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn atebol yn ddemocrataidd i'w hetholwyr am safon y gwasanaethau y maent yn eu darparu, a'r ffordd y maent yn buddsoddi yn eu hardaloedd fel eu bod yn ddeniadol i fyw, gweithio, cychwyn busnesau ynddynt, ac ymweld â hwy. Er ein bod ni, dros y tair blynedd diwethaf, wedi gallu gwarchod yr Awdurdodau Lleol rhag effaith toriadau Cyllideb Llywodraeth y DU i’n Cyllideb, mae natur hollol newydd yr her ariannol bresennol sy'n ein hwynebu yn golygu ei bod yn anochel y bydd yn rhaid i Awdurdodau Lleol weithio o fewn cyllidebau llai.

Rydym yn cydnabod bod y Gyllideb hon yn un na welwyd ei thebyg o'r blaen, a’i bod yn anochel y bydd yn cael effaith ar Awdurdodau Lleol ac ar y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Rydym wedi bod yn cydweithio â Llywodraeth Leol am beth amser ar y gweddnewidiad sydd ei angen i reoli'r cyfuniad o gyfyngiadau ariannol, cynnydd yn y galw a phwysau demograffig. Byddwn yn parhau i gefnogi Awdurdodau Lleol i dynnu sylw at yr hyn sydd ei angen i wella gwasanaethau, a rhoi hynny ar waith. Er enghraifft drwy'r Gronfa Buddsoddi i Arbed, y Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol, a thrwy fforymau fel Grŵp Arwain y Sector Cyhoeddus.

Mae’r Adran Llywodraeth Leol yn pennu'r fframwaith deddfu a chyllido y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol weithio ynddo. Yn unol â hynny, mae gan Lywodraeth Cymru ei hymrwymiadau statudol ei hun y mae'n rhaid iddi ddarparu ar eu cyfer. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer dosbarthiad teg o'r Grant Cynnal Refeniw, sy’n darparu cyllid ar gyfer y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Llywodraeth Leol, Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru. Mae hefyd yn darparu cyfran sylweddol o'r cyllid ar

gyfer plismona yng Nghymru.

Un o nodweddion eraill y fframwaith yw rhoi cymorth i Awdurdodau Lleol drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd hynny'n eu helpu i ddiwallu'r gofynion a osodwyd arnynt gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i sicrhau eu bod yn gwneud trefniadau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i'r cyhoedd.

Mae'n hanfodol cael proses graffu leol sy'n effeithiol, ynghyd â democratiaeth a phroses benderfynu leol sy'n agored ac yn dryloyw – a hynny er mwyn hyrwyddo gwelliant parhaus mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r gofynion ar gyfer gwneud hynny wedi'u pennu mewn deddfwriaeth, ac mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn rhan allweddol o'r fframwaith i wella gwasanaethau cyhoeddus. Hynny yw, fe ddylai'r fframwaith weithio mewn modd cydnaws â'r rheoliadau a'r archwiliadau i sicrhau gwasanaethau gwell . Mae £0.21m o'r gyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer y Gronfa Datblygu Gwaith Craffu a chymorth ar gyfer y Ganolfan Craffu Cyhoeddus i ddatblygu a chefnogi craffu'n lleol ar hyd a lled Cymru.

Y fframwaith hwn sydd wedi helpu i arwain ein proses o wneud penderfyniadau drwy'r cyfnod anodd hwn. Ein nod oedd sicrhau bod cymaint ag sy'n bosibl o'r hyn sydd wedi'i neilltuo o'r gyllideb ar gyfer ein Hadran yn cael ei gyfeirio at gefnogi **gwasanaethau rheng flaen** sy'n cael eu darparu gan Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn hybu **twf a swyddi**, **cyrhaeddiad addysgol, ac yn cefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig**. Gwneir hynny mewn ffordd uniongyrchol drwy'r penderfyniadau y bydd Awdurdodau Lleol yn eu gwneud pan fyddant yn pennu cyllidebau eu hunain ar gyfer y flwyddyn nesaf.

O ran **twf a swyddi**, mae Awdurdodau Lleol yn derbyn traean o gyllideb Llywodraeth Cymru ac maent yn gyflogwyr o bwys, sy'n cynnig ystod o swyddi, yn uniongyrchol a thrwy'r gwaith y maent yn ei gomisiynu ar gyfer y sector preifat a'r trydydd sector. Maent hefyd yn hybu eu hardaloedd fel lleoedd i gychwyn busnes, gweithio, ac ymweld â hwy, gan gydweithio fwyfwy â'i gilydd yn y rhanbarthau i sicrhau'r effaith orau.

Mae Awdurdodau Lleol yn cyfrannu at **gyrhaeddiad addysgol** drwy eu hysgolion a'u rhaglenni ar gyfer dysgu gydol oes. Maent yn darparu nifer o'r amwynderau a'r gwasanaethau y mae eu cymunedau lleol, ymwelwyr, a busnesau yn dibynnu arnynt - sy'n amrywio o wasanaethau hamdden i wasanaethau amgylcheddol a chymdeithasol. Mae'r rhain yn gwneud cyfraniad pwysig at **gefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig**.

Felly, yn 2014-15 byddwn yn buddsoddi £4,232m yn gymorth grant ar gyfer Awdurdodau Lleol, a £140m ar gyfer yr Heddlu ledled Cymru, £34.9m i Llywodraeth Leol wneud gwelliannau, £28.4m ar archwilio a rheoleiddio, a £0.8m i ddatblygu democratiaeth leol gryfach. Byddwn yn mynd ati i roi rheoliadau ar waith. Os bydd y rhain yn cael eu pasio, bydd hynny'n golygu y

bydd ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2014-15 yn parhau i roi cymorth i aelwydydd agored i niwed yn yr un modd ag y mae eleni. Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn dod o hyd i ffordd o barhau i ddarparu cymorth ar gyfer y dreth gyngor yng Nghymru yn y tymor hir. Rydym wedi dechrau adolygiad i archwilio'r opsiynau. Ein nod yw dod o hyd i ateb a fydd yn darparu cymorth cynaliadwy a theg yn y tymor hir o fewn y cyllid sydd ar gael. Bydd y model newydd hwn o gymorth yn cael ei roi ar waith o 2015-16 ymlaen.

Y Gwasanaeth Tân ac Achub

Bydd ein rhaglenni sy'n sicrhau cymunedau mwy diogel i bawb yn creu amgylchedd lle gall cymunedau ffynnu a lle bo gan fusnesau yr hyder i fuddsoddi. Ar y cyd, nod y rhaglenni hyn yw sicrhau bod pawb yn gallu byw eu bywyd i'r eithaf, drwy ganolbwyntio ar **gamau i atal ac ymyrryd yn gynnar**. Er enghraifft, drwy sicrhau bod cymunedau'n cael eu diogelu gan raglenni gwaith sy'n rhai ataliol ac sy'n cael eu darparu gan y gwasanaethau tân ac achub. Yn 2014-15, cyllideb cydnerthedd y gwasanaeth tân yw £5m, a'r gyllideb ar gyfer Diogelwch Tân Cymunedol yw 2.14m. Mae'r gwaith hwn yn amrywio o wiriadau diogelwch tân yn y cartref er mwyn targedu pobl sy'n agored i niwed yn eu cartrefi eu hunain, i weithgareddau sy'n ymwneud ag atal tanau bwriadol ac â phlant a phobl ifanc.

Diogelwch Cymunedol

Erbyn hydref 2013 byddwn wedi bodloni'n hymrwymiad i sicrhau bod 500 o swyddogion cymorth cymunedol yn cerdded y strydoedd. A byddwn yn buddsoddi £16.8m yn 2014-15 i sicrhau bod hynny'n parhau i ddigwydd. Mae hynny'n un o'r ‘Pump am Ddyfodol Tecach’ yn y Rhaglen Lywodraethu, a bydd yn gwneud cyfraniad pwysig at gyflawni ein hymrwymiad i leihau nifer yr achosion o droseddau ac o ofn trosedd **drwy wario i atal**.

Cam-drin Domestig

Ers 2002 mae'r Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig wedi cefnogi prosiectau sy'n diogelu'r rhai hynny sy'n dioddef o gam-drin domestig a'u plant, ac yn gwneud iddynt deimlo'n fwy diogel; er enghraifft drwy roi cymorth ariannol ar gyfer Llinell Gymorth i Cymru gyfan, a thrwy ddarparu adnoddau i wella'r diogelwch yn eu cartrefi. Buddsoddwyd hefyd mewn prosiectau sy'n cefnogi plant sydd wedi bod yn dystion i gam-drin domestig ac ymgyrchoedd sy'n codi ymwybyddiaeth gyffredinol drwy'r cyfryngau. Mae hwn yn grant allweddol sy'n **cefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig.** Drwy'r grant allweddol hwn, rydym wedi ymrwymo i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod, a lleihau'r nifer o achosion, gan dorri'r cylch o gam-drin o fewn teuluoedd.

Yn 2014-15, rydym wedi gwarchod ac wedi cynyddu’r grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig i £4m. Mae'r Adolygiad Annibynnol o'r holl wasanaethau

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi'i gomisiynu, a disgwylir yr adroddiad terfynol yn yr hydref.  Bydd hynny'n ein helpu i sicrhau bod y cyfeiriad strategol a'r dull o neilltuo cyllid yn y maes hwn wedi'u seilio ar ddealltwriaeth gadarn o'r ddarpariaeth gyfredol yn y maes, a bod y gwariant yn cefnogi gweithredu'r bil arfaethedig, y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Cyfiawnder Ieuenctid

Fel y nodwyd ym Mhennod 7 y Rhaglen Lywodraethu**,** byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, gan ganolbwyntio ar **ymyrryd yn gynnar**. Bu cynnydd o 8% yn 2013-2014 yn y gyllideb Cyfiawnder Ieuenctid, gan greu cyfanswm o £5.2m. Cafodd y cyllid hwn ei ddyrannu i gefnogi'r Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid a dwy o fentrau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, sef peilot treialu prosiectau sy'n adsefydlu troseddwyr yn y Gogledd a'r De, a phrosiect rheoli achosion.  Bydd y gyllideb yn parhau ar y lefel hon ar gyfer 2014-15.

Ers 2005, mae'r **Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid** wedi cefnogi prosiectau sy'n ceisio rhwystro pobl ifanc rhag troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hynny'n cynnwys prosiectau sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant, hamdden, y celfyddydau, cyfiawnder adferol, a mentrau i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.  Bellach, mae'n gweithredu ar sail y patrwm o chwe ardal ranbarthol.

Mae'r gyllideb hon yn canolbwyntio ar **gefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig.**  Mae'n canolbwyntio ar opsiynau gwahanol sy'n osgoi cadw pobl yn y ddalfa, a ffyrdd o atal plant rhag mynd yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid yn y lle cyntaf. Y nod yw lleihau nifer y plant sy'n mynd yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid yn y lle cyntaf drwy ddefnyddio dull arloesol, sef cyfiawnder adferol, yn lle cael eu cyhuddo gan yr heddlu. Mae hynny'n cynnig y cyfle i'r rhai hynny sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol gan drosedd (pa un a ydynt yn ai dioddefwyr, troseddwyr ac/neu aelodau o'r cymunedau) i gyfathrebu a chytuno ar sut i ddelio â'r drosedd a'i chanlyniadau.

Cyflawni Polisi

Mae Awdurdodau Lleol yn cyflawni ymrwymiadau polisi ar draws portffolios holl Weinidogion y Llywodraeth. Mae natur newydd yr her ariannol y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei hwynebu yn golygu ei bod yn fwy pwysig nag erioed ein bod yn defnyddio elfen o'n hadnoddau i gefnogi Awdurdodau i barhau i wella a chydweithio â phartneriaid ar draws y gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer pobl.  Felly, mae'r gweddill o'n rhaglenni yn anelu at gefnogi Awdurdodau i fynd i'r afael â'r her o ddelio â chyllidebau llai.

Mae rhoi pobl yn gyntaf a sicrhau'r gwerth gorau am arian cyhoeddus yn

golygu na all Awdurdodau Lleol weithio ar eu pennau eu hunain; ni allant weithio heb ei gilydd nac ychwaith heb y gweddill o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae yna enghreifftiau calonogol o gydweithio arloesol, effeithiol, ac effeithlon ymhlith y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ond mae diffyg cysondeb a chyflymder o ran rhoi'r arfer da ar waith yn parhau. I gefnogi hyn, rydym wedi sefydlu Cyngor Partneriaeth Cymru ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus er mwyn iddo ddarparu arweiniad gwleidyddol. Mae'n cynnwys Gweinidogion o Lywodraeth Cymru, arweinwyr gwleidyddol awdurdodau lleol ac uwch-arweinwyr o'r gwasanaethau cyhoeddus a Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus, er mwyn rhoi'r arweinyddiaeth honno ar waith.

Mae'r pedair rhaglen waith a gafodd eu sefydlu gan Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus, er mwyn llywio a sicrhau newid, yn parhau i ystyried sut y gall modelau gwahanol o ddarparu gwasanaethau gael eu mabwysiadu'n fwy eang. Mae'r rhain yn mynd yn eu blaen yn dda ac rydym yn parhau i fwrw ymlaen ar sail hynny. Mawrth 2013 oedd y dyddiad ar gyfer cwblhau'r rhan fwyaf o'r ymrwymiadau yng Nghompact Simpson, ac mae'r rhain wedi'u cwblhau. Mae disgwyl y bydd ymrwymiadau eraill, fel y rheini sy'n ymwneud â gwastraff, yn cael eu cwblhau erbyn 2018.

Byddai'n ddealladwy ac yn ddeniadol i wynebu'r her ariannol bresennol drwy encilio i seilos sefydliadol ac aros i bethau wella. Ond ni fydd hynny'n cyflawni ar gyfer pobl Cymru. Ni fydd yn creu newid mewn diwylliant ac arferion – newid a fydd yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar **atal** yn hytrach nag ar ddelio â materion uniongyrchol ac ymateb i sefyllfaoedd. Mae atal yn golygu buddsoddi mewn gwasanaethau ac arferion - a hynny'n creu canlyniadau gwell i unigolion, a gwasanaeth cyhoeddus sy'n fwy effeithiol ac effeithlon.

Dyna pam y sefydlwyd y **Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol** gennym yn 2013. Mae'r gronfa hon yn allweddol o ran ysgogi a chefnogi newidiadau radical, a sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus yn barod at y dyfodol. Mae'r Gronfa wedi rhoi cyfle i bob rhanbarth gael gafael ar gyllid, ar sail ranbarthol, i fwrw ymlaen â phrosiectau sy'n bwysig i'r rhanbarth dan sylw. Rwyf eisoes wedi cyhoeddi cyllid ar gyfer 30 o brosiectau, sydd gyda'i gilydd yn werth £9.8m. Mae gan nifer o'r prosiectau hynny raglenni gwaith am ddwy neu dair blynedd.

Rydym yn deall pwysigrwydd moderneiddio gwasanaethau a hyrwyddo cydweithio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Gronfa Gofal Canolraddol yn gronfa newydd a fydd yn hybu dull gweithio mwy cydgysylltiedig ac unol rhwng y gwasanaethau iechyd, tai a gofal cymdeithasol. Bydd £35m o'r adnoddau'n cael eu hariannu drwy'r MEG Llywodraeth Leol. Bydd hyn yn sicrhau mai anghenion unigolion sydd flaenaf, ac yn helpu'r bobl hynny i fyw'n annibynnol. Bydd hefyd yn fodd i leihau'r pwysau sydd ar y gwasanaethau cyhoeddus eraill. Bydd y cynllun yn cael ei integreiddio â chynlluniau iechyd eraill a gymeradwywyd eisoes o dan y Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol.

Dyna pam hefyd yr ydym yn buddsoddi £1.5m hefyd i **gefnogi gwasanaethau cyhoeddus i weithio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon**. Bydd y buddsoddiad hwn yn **cefnogi cyrhaeddiad addysgol, plant, teuluoedd, a chymunedau difreintiedig** drwy ganolbwyntio sylw arweinwyr ein gwasanaethau cyhoeddus yn genedlaethol ar sut y bydd **gwario i atal,** gan ddefnyddio dulliau arloesol sy'n canolbwyntio ar rannu gwasanaethau, yn sicrhau dyfodol gwell ar gyfer ein pobl a'n cymunedau.

Mae rhaglenni diwygio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yn ysgogi gwella'r gwasanaethau cyhoeddus yn gyflym, drwy sicrhau cydweithio effeithiol mewn meysydd allweddol, gan gynnwys gwneud y defnydd gorau o'r £12bn sy'n cael i gadw fel asedau yn y sector cyhoeddus drwy'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol; newid y ffordd y mae'r gwasanaeth cyhoeddus yn caffael trwy Wasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru; ac annog mabwysiadu dulliau mwy ataliol o gefnogi pobl sy'n agored i niwed, fel teuluoedd sy'n profi cam-drin domestig.

Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol, drwy eu cynlluniau integredig sengl yn sicrhau bod modd cyfuno gwasanaethau cyhoeddus lleol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ar gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer pobl. Mae cynlluniau integredig sengl yn canolbwyntio ar **dwf a swyddi, ac ar gefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig.** Mae Cydamcanu, Cydymdrechu yn cynnig fframwaith integredig ar gyfer awdurdodau lleol a'u partneriaid i allu cynllunio a darparu gwasanaethau. O ganlyniad i hynny nid oes angen cael cynlluniau ar wahân ar gyfer plant a phobl ifanc, diogelwch cymunedol ac iechyd a llesiant. Mae hynny wedi golygu bod gostyngiad yn y nifer o gynlluniau lleol sydd ei angen. Nid yw hynny'n ymwneud â rhwymo partneriaid lleol i gymryd cyfrifoldebau ychwanegol, ond yn hytrach mae a wnelo â chael partneriaid i gydweithio a gweithio mewn ffordd wahanol.

Mae £0.35m o gyllid ar gael yn yr ardaloedd hynny nad ydynt yn rhai cydgyfeiriant er mwyn cefnogi Byrddau Gwasanaethau Lleol, ac mae £1.1m wedi'i ddyrannu ar gyfer y flwyddyn olaf o arian cyfatebol ar gyfer prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop y Byrddau Gwasanaethau Lleol. Mae cyfanswm o £17m ar gael dros gyfnod o bum mlynedd, a £10m o hwnnw o Gronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n rhoi cymorth ariannol i 38 o brosiectau ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau **canlyniadau gwell i deuluoedd**, **cymorth ar gyfer llwybrau at waith**, ac ar gyfer mynd i'r afael ag allyriadau carbon a **lleihau tlodi**. Mae'r prosiectau hyn yn cael eu gwerthuso, a byddant yn darparu sylfaen gadarn er mwyn gallu trosglwyddo'r dysgu i bob rhan o Gymru.

Rydym o'r farn y bydd y rhaglenni hyn yn sicrhau bod gan y gwasanaeth cyhoeddus yr hyn sydd ei angen i weithredu unrhyw ganfyddiadau ac argymhellion a gaiff eu cyflwyno gan **Gomisiwn y Prif Weinidog ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus** . Bydd argymhellion y

Comisiwn yn cael effaith ar yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac ar bob un o bortffolios Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i'r Comisiwn adrodd yn ôl erbyn diwedd 2013, a bydd ymateb Llywodraeth Cymru i'w argymhellion yn cael ei ystyried yng nghylchoedd cyllidebol y dyfodol.

## 5. Deddfwriaeth

Mae'r Adran Llywodraeth Leol yn gyfrifol am ddwy o Ddeddfau'r Cynulliad sydd wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol hyd yma:

- Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012;
- Deddf Llywodraeth Cymru (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Yn ogystal â gweithredu'r rhain, mae'r Adran Llywodraeth Leol yn gyfrifol am dri Bil yn y Rhaglen Ddeddfwriaethol:

- Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
- Bil Gweithlu'r Gwasanaeth Cyhoeddus;
- Bil Cyfiawnder Ieuenctid.

Rhoddwyd cyfrif llawn o effeithiau Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 a Deddf Llywodraeth Cymru (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn unol â'u Hasesiadau Effaith Rheoleiddiol. Dangosodd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Ddeddf Democratiaeth y byddai'n rhaid ysgwyddo mân gostau'n unig gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i weithredu'r Ddeddf, ac y byddai'r costau hynny'n cael eu hymgorffori yn ei ddyraniad presennol o'r gyllideb, sy'n £0.52m. Rwyf wedi rhoi cyllid i gynghorau tref a chymuned yn y flwyddyn ariannol hon i'w cynorthwyo wrth sefydlu eu gwefannau.

Mae’r gwaith o weithredu Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wedi bod yn mynd rhagddo ers tro bellach, ac mae'r cyllidebau'n adlewyrchu gofynion a gafodd eu hasesu pan ddaeth y Mesurau yn Ddeddfau. Mae'r costau hyn wedi dod yn rhan o'r grant cynnal erbyn hyn.

Bydd y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2014, a disgwylir iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol ym mis Chwefror 2015. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol cadarn yn cael ei ddatblygu, sy'n cynnwys dadansoddiad o gostau llawn yr opsiynau. Rydym yn rhagweld y gall costau gweithredu refeniw'r cynigion gael eu talu o gyllideb refeniw bresennol y Tîm Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig, sy'n £4m. Nid ydym yn rhagweld y bydd cost gyfalaf yn codi o’r cynigion. Mae'n annhebyg y bydd y costau hyn yn dod i rym cyn 2015/16.

Bwriedir cynnal ymgynghoriad ar Fil drafft Gweithlu'r Gwasanaeth Cyhoeddus ar ddiwedd 2013, ac yn dilyn hynny disgwylir ei gyflwyno cyn toriad yr haf yn

2014. Bydd adeg benodol cyflwyno'r Bil yn dibynnu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad. Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei baratoi cyn cyflwyno'r Bil, ac mae'n annhebyg y bydd unrhyw effeithiau ariannol yn cael eu rhoi ar waith cyn 2015/16.

Bwriedir cyhoeddi Papur Gwyn ar y materion i'w cynnwys yn y Bil Cyfiawnder Ieuenctid ar ddiwedd 2013, a datblygu'r Bil yn dilyn hynny. Caiff Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn ei gynnal cyn cyhoeddi'r Bil. Ni chytunwyd hyd yma ar ddyddiad cyflwyno. Mae'n annhebyg y bydd unrhyw effeithiau ariannol yn cael eu rhoi ar waith yn ystod 2014/15.

Gan fod Llywodraeth Leol yn ymgymryd ag ystod eang o gyfrifoldebau caniataol a statudol, mae hynny'n golygu bod y rhan fwyaf o Ddeddfau a Biliau yn y Rhaglen Ddeddfwriaethol yn cael rhywfaint o effaith ar y cyfrifoldebau hynny. Mae'r Adran Llywodraeth Leol yn meithrin cysylltiad â Thimau'r Biliau yn Llywodraeth Cymru er mwyn trafod ac ystyried yr effeithiau hynny. Eitemau sydd o ddiddordeb arbennig yw:

- Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru);
- Bil Cenedlaethau'r Dyfodol
- Y Bil Tai;
- Y Bil Diwygio Cynllunio;
- Y Bil Teithio Llesol;
- Y Bil Mynediad a Hamdden Awyr Agored.

Roedd gan y Biliau hyn i gyd, neu bydd ganddynt, Asesiad Effaith Rheoleiddiol o gostau llawn ar adeg eu cyflwyno, a byddai hwnnw'n cymryd i ystyriaeth y canlyniadau ar gyfer Llywodraeth Leol. Os bydd beichiau statudol newydd yn cael eu creu, mae gofyn i'r adran berthnasol dalu'r costau hynny. Gwneir hynny fel arfer drwy roi mwy o gyllid i’r Grant Cynnal Refeniw.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei rhaglen ddeddfwriaethol yn Araith y Frenhines. Mae gan yr Adran Llywodraeth Leol ddiddordeb arbennig yn y Biliau canlynol:

- Y Bil Dadreoleiddio Drafft;
- Y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona;
- Y Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol;
- Y Bil Adsefydlu Troseddwyr.

Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys cyfuniad o faterion sydd wedi'u datganoli a materion a gadwyd yn ôl. Os bydd angen Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol, bydd y rhain yn cael eu cyflwyno'n ddiymdroi. Mae'r trafodaethau â Llywodraeth y DU ynglŷn â goblygiadau ariannu yn mynd rhagddynt, fel rhan o'r trafodaethau ehangach ar gynnwys y ddeddfwriaeth.

## 6. Cyfalaf

Mae Llywodraeth Leol yng Nghymru yn gwario cyfanswm o tua £1bn y flwyddyn ar brosiectau cyfalaf. Bydd yr Adran Llywodraeth Leol yn parhau i roi £20m o gyllid Cyfalaf Cyffredinol yn 2014-15. Mae'r Adran wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth Leol i sicrhau bod cynlluniau gwario cyfalaf Llywodraeth Leol yn adlewyrchu'r uchelgeisiau a'r blaenoriaethau sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar gyfer Twf a Swyddi.

## 7. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Wrth bennu dyraniadau'r gyllideb, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i effaith y newidiadau ar gydraddoldeb. Nid yw rhagdybiaethau sylfaenol dyraniadau eleni yn wahanol i rai cynlluniau'r blynyddoedd blaenorol o ran egwyddor - sef sicrhau bod cymaint ag sy'n bosibl o'r adnoddau sydd ar gael yn cael ei dargedu at gefnogi darparu a gwella gwasanaethau rheng flaen sy'n cefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig. Mae'r gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael fel canlyniad i Gylch Gwario'r DU eleni yn golygu y bydd effeithiau sylweddol yn anochel wrth i Awdurdodau Lleol yn arbennig ystyried penderfyniadau eu hunain am eu cyllidebau, a gwneud dyraniadau i'w cyllidebau ar gyfer gwasanaethau dros y misoedd nesaf. Mae hon yn sefyllfa nad ydym wedi'i hwynebu o'r blaen.

Mae'r gostyngiadau cyffredinol yn y gyllideb wedi achosi gostyngiad sylweddol na ellir ei osgoi i'r Grant Cynnal Refeniw. Ond yn sgil hynny, ein nod yw lleihau'r effaith ar Awdurdodau Lleol a gwarchod gwasanaethau rheng flaen, fel y gellir yn ei dro leihau effeithiau ar gydraddoldeb ar lefel leol. Mae hynny wedi golygu ein bod yn adolygu ein rhaglenni eraill, yn annog trosglwyddo grantiau penodol i mewn i'r Grant Cynnal Refeniw er mwyn cael mwy o hyblygrwydd, yn lleihau biwrocratiaeth drwy gynllunio integredig sengl, yn sicrhau bod y cyfrifoldebau a roddir i Awdurdodau Lleol yn cael eu hariannu'n briodol, gan gynnwys y rhai hynny sy'n deillio o'r rhaglen ddeddfwriaethol, ac yn darparu cymorth ar gyfer trawsnewid a gwella gwasanaethau.

O ran ein rhaglenni sy'n cefnogi diwygio'r gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol, rydym yn canolbwyntio ar annog a chefnogi newid o ddulliau o wario i **ddulliau ataliol o ddarparu gwasanaethau**. Hynny yw dulliau sy'n anelu at wella cyfleoedd plant, pobl ifanc, pobl fregus a phobl hŷn, a'r rhai hynny sydd â chyflyrau sy'n eu gwneud yn fwy tebygol o fod yn agored i niwed neu o fod dan anfantais. Yn benodol, rydym yn gweithio i sicrhau bod pobl yn gallu byw bywydau annibynnol.

Mae Cymru’n wlad o gymunedau balch a chryf. Rydym wedi gwarchod ein rhaglen o recriwtio 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol yng Nghymru, a byddwn yn buddsoddi mwy er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a cham-drin domestig yn effeithiol i atal effeithiau niweidiol ar genedlaethau o blant a phobl ifanc. Bydd hynny hefyd yn cefnogi **hawliau pob plentyn** i fyw eu bywydau heb niwed ac ofn.

## 8. Datblygu Cynaliadwy

Bydd effeithiau cyfunol newidiadau cyllidebol y Grant Cynnal Refeniw yn amrywio o le i le. Ond mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cefnogi ac yn annog Awdurdodau Lleol i feithrin dull strategol a hirdymor o reoli eu cyllidebau. Mae'r her yn un nad ydym wedi'i hwynebu o'r blaen. Ond bydd penderfyniadau yn y tymor byr, er enghraifft i gau canolfannau hamdden neu lyfrgelloedd heb ystyried yr effeithiau hirdymor ar iechyd a llythrennedd, yn achosi problemau ar gyfer y dyfodol. Ni fydd penderfyniadau o'r fath yn cynnig dull cynaliadwy o reoli gostyngiadau yn y gyllideb.

Mae nifer o'r prosiectau sy'n cael cyllid o'r MEG hwn yn cefnogi **datblygu cynaliadwy**, gan eu bod yn anelu at **wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol**. Maent hefyd yn rhoi sylw i'r tymor hir drwy ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar ac ar gamau i atal.

Bydd y ffaith ein bod wedi parhau i gefnogi'r Byrddau Gwasanaethau Lleol i ddatblygu a gweithredu cynlluniau integredig sengl yn sicrhau bod **lles amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol** wrth wraidd gwneud penderfyniadau ar lefel leol.

**Lesley Griffiths AC**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**

| LOCAL GOVERNMENT MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG) | | | | | | | ANNEX 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **RESOURCE BUDGET - Departmental Expenditure Limit** | | | | | | |
| **SPA** | **Actions** | **BEL Title** | **2013-14 Supplementary Budget** | **2014-15 Final Budget (Restated)** | **Adjustments** | **2014-15 Draft Budget** | **2015-16 Indicative Allocations** |
| **Local Government Funding** | Funding Support for Local Government | Community Support Officer Grant | 16,787 | 16,787 | | 16,787 | 16,787 |
| | | Unitary Authority Revenue Funding (RSG & NDR) | 4,408,513 | 4,351,166 | -118,698 | 4,232,468 | 4,167,403 |
| | | Police Gen Revenue Funding (RSG & NDR) | 147,800 | 147,800 | -7,800 | 140,000 | 136,000 |
| | | Local Govt PFI Revenue Consequences | 35,628 | 35,628 | -1,014 | 34,614 | 33,599 |
| | | Transformation and Legislation | 400 | 3,600 | -200 | 3,400 | 3,400 |
| | | Non Domestic Rates: Collection Costs | 5,172 | 5,172 | | 5,172 | 5,172 |
| | | Emergency Financial Assistance Scheme | 1 | 1 | | 1 | 1 |
| | | Council Tax Reduction Scheme: Pensioner Grant | 4,000 | 4,000 | | 4,000 | 4,000 |
| | | **ACTION TOTAL** | **4,618,301** | **4,564,154** | **-127,712** | **4,436,442** | **4,366,362** |
| | Valuation Services | Valuation Office Agency | 8,826 | 8,826 | -265 | 8,561 | 8,561 |
| | | Valuation Tribunal for Wales | 1,167 | 1,167 | 65 | 1,232 | 1,232 |
| | | **ACTION TOTAL** | **9,993** | **9,993** | **-200** | **9,793** | **9,793** |
| | **SPA TOTAL** | | **4,628,294** | **4,574,147** | **-127,912** | **4,446,235** | **4,376,155** |
| **Safer Communities** | Fire and Rescue Services Resilience | Fire and Rescue Services Resilience | 5,257 | 5,585 | -558 | 5,027 | 5,027 |
| | | **ACTION TOTAL** | **5,257** | **5,585** | **-558** | **5,027** | **5,027** |
| | Fire and Rescue Services National Framework | Community Fire Safety | 2,250 | 2,250 | -112 | 2,138 | 2,025 |
| | | **ACTION TOTAL** | **2,250** | **2,250** | **-112** | **2,138** | **2,025** |
| | Domestic Abuse | Domestic Violence Services Grant | 3,666 | 3,666 | 334 | 4,000 | 4,000 |
| | | **ACTION TOTAL** | **3,666** | **3,666** | **334** | **4,000** | **4,000** |
| | Youth Justice | Youth Justice Services | 5,200 | 5,200 | | 5,200 | 5,200 |
| | | **ACTION TOTAL** | **5,200** | **5,200** | | **5,200** | **5,200** |
| | **SPA TOTAL** | | **16,373** | **16,701** | **-336** | **16,365** | **16,252** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Improving Services, Collaboration and Democracy** | Building Local Democracy | Local Government Scrutiny & Standards | 301 | 455 | -154 | 301 | 301 |
| | | LGBC General Expenses | 520 | 520 | | 520 | 520 |
| | | **ACTION TOTAL** | **821** | **975** | **-154** | **821** | **821** |
| | Local Government Improvement | Improvement Grants | 31,288 | 31,288 | | 31,288 | 31,288 |
| | | Grant to Wales Audit Office | 1,206 | 1,206 | -60 | 1,146 | 1,146 |
| | | Ffynon Knowledge Management Project | 500 | 500 | -500 | 0 | 0 |
| | | Improvement Services | 1,705 | 1,705 | -85 | 1,620 | 1,620 |
| | | Local Government Research & Evaluation | 800 | 800 | | 800 | 800 |
| | | **ACTION TOTAL** | **35,499** | **35,499** | **-646** | **34,853** | **34,853** |
| | Intermediate Care Fund | Intermediate Care Fund | 0 | 0 | 35,000 | 35,000 | 0 |
| | | **ACTION TOTAL** | **0** | **0** | **35,000** | **35,000** | **0** |
| | Supporting Collaboration and Reform | Local Government Ethics & Regulation | 175 | 175 | -15 | 160 | 160 |
| | | Local Service Boards & Partnerships | 710 | 710 | -280 | 430 | 430 |
| | | LSB & Partnerships - ESF Projects | 1,119 | 1,119 | | 1,119 | 150 |
| | | Public Service Reform | 1,851 | 1,851 | -351 | 1,500 | 1,500 |
| | | Access Transformation (CIO) funding | 450 | 450 | -450 | 0 | 0 |
| | | Regulation & Engagement Framework. | 200 | 200 | -6 | 194 | 194 |
| | | **ACTION TOTAL** | **4,505** | **4,505** | **-1,102** | **3,403** | **2,434** |
| | **SPA TOTAL** | | **40,825** | **40,979** | **33,098** | **74,077** | **38,108** |
| **Care and Social Services Inspectorate** | Care and Social Services Inspectorate | Care and Social Services Inspectorate | 14,461 | 14,461 | | **14,461** | 14,461 |
| | **SPA Total** | | **14,461** | **14,461** | | **14,461** | **14,461** |
| **Healthcare Inspectorate Wales** | Healthcare Inspectorate Wales | Healthcare Inspectorate Wales | 2,591 | 2,591 | | **2,591** | 2,591 |
| | **SPA Total** | | **2,591** | **2,591** | | **2,591** | **2,591** |
| **Estyn** | Estyn | Estyn Programme Expenditure | 12,364 | 12,364 | -700 | **11,664** | 11,664 |
| | **SPA Total** | | **12,364** | **12,364** | **-700** | **11,664** | **11,664** |
| | | | | | | | |
| | **Total Resource - Local Government** | | **4,714,908** | **4,661,243** | **-95,850** | **4,565,393** | **4,459,231** |

| | CAPITAL BUDGET - Departmental Expenditure Limit | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SPA** | **Actions** | **BEL Title** | **2013-14 Supplementary Budget** | **2014-15 Final Budget (Restated)** | **Adjustments** | **2014-15 Draft Budget** | **2015-16 Indicative Allocations** |
| **Local Government Funding** | Local Government General Capital Funding | General Capital Funding | 20,000 | 20,000 | | 20,000 | 20,000 |
| | **SPA TOTAL** | | **20,000** | **20,000** | | **20,000** | **20,000** |
| **Safer Communities** | Fire and Rescue Services Resilience | Fire and Rescue Services Resilience | 1,000 | 1,000 | | 1,000 | 1,000 |
| | | **ACTION TOTAL** | **1,000** | **1,000** | | **1,000** | **1,000** |
| | Fire and Rescue Services National Framework | Community Fire Safety | 1,339 | 1,339 | | 1,339 | 1,339 |
| | | **ACTION TOTAL** | **1,339** | **1,339** | | **1,339** | **1,339** |
| | Domestic Abuse | Domestic Violence Services Grant | 300 | 300 | | 300 | 300 |
| | | **ACTION TOTAL** | **300** | **300** | | **300** | **300** |
| | **SPA TOTAL** | | **2,639** | **2,639** | | **2,639** | **2,639** |
| **Estyn** | Estyn | Estyn - Programme Expenditure | 281 | 281 | | 281 | 281 |
| | **SPA TOTAL** | | **281** | **281** | | **281** | **281** |
| | **Total Capital - Local Government** | | **22,920** | **22,920** | | **22,920** | **22,920** |

| **Local Government - Summary** | | **2013-14 Supplementary Budget** | **2014-15 Final Budget Baseline** | **Adjustments** | **2014-15 Revised** | **2015-16 Baseline** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Revenue DEL | | 4,714,908 | 4,661,243 | -95,850 | 4,565,393 | 4,459,231 |
| Capital DEL | | 22,920 | 22,920 | | 22,920 | 22,920 |
| **Total DEL - Local Government** | | **4,737,828** | **4,684,163** | **-95,850** | **4,588,313** | **4,482,151** |